

Y Cytundeb Dysgu

PORTH AGORED a PHRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT
TYSTYSGRIF RADDEDIG MEWN CADARNHAU YMARFER GWAITH
CYMDEITHASOL

CYTUNDEB DYSGU RHWNG Y DYSGWR A'R CYFLOGWR

Enw'r Dysgwr	Marged Dafydd
Enw'r Tîm/Asiantaeth	
Enw'r Mentor	Serv Am Lewis
Enw'r Rheolwr Llinell	

Dyletswydd Astudio

Bydd y dysgwr yn ymgymryd â holl elfennau'r rhaglen Tystysgrif Raddedig yn ddiwyd, gan gynnwys mynychu'r sesiwn gynefino orfodol, pedwar Gweithdy Cadarnhau a chymryd rhan mewn arolwg gwerthuso neu grŵp ffocws ar ôl cwblhau'r rhaglen.

Mae cyfranogiad llawn ac effeithiol y dysgwr ar y Dystysgrif Raddedig yn orfodol gan fod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwneud cwblhau'r rhaglen yn ofyniad o fewn y cyfnod cofrestredig cyntaf (tair blynedd) fel Gweithiwr Cymdeithasol. Mae hyn yn berthnasol i weithwyr cymdeithasol a gymhwysodd ar ôl Ebrill 2016.

Absenoldeb Astudio

Mae'r cyflogwr yn cytuno i gefnogi'r dysgwr drwy ddarparu amser o fewn ei contract cyflogaeth arferol i fynychu'r holl elfennau gorfodol a gytunwyd o'r rhaglen, yn cynnwys diwrnod cynefino a phedwar Gweithdy Cadarnhau. Gellir darparu amser ychwanegol ar gyfer cyfarfodydd gwerthuso'r rhaglen ac unrhyw hyfforddiant a gytunwyd fel elfen ofynnol o'r rhaglen.

Bydd y cyflogwr yn darparu tri diwrnod astudio pellach fel cyfraniad tuag at yr amser sy'n gysylltiedig ag ymchwil personol a datblygu'r portffolio i'w gyflwyno. Gellir cymryd y diwrnodau astudio yn ystod unrhyw ddiwrnod o'r wythnos (neu gyfuniad o ddyddiau) cyn belled â bod hyn (i) yn briodol i gam paratoi'r portffolio ar y pryd, a (ii) wedi'i gytuno gyda Rheolwr y Tîm a fydd yn rhoi ystyriaeth i anghenion y tîm a'r gwasanaeth. Os yw'r dysgwr yn gweithio llai na 37 awr yr wythnos bydd y diwrnodau gorfodol a'r absenoldeb astudio'n cael eu cymeradwyo yn unol â pholisïau lleol y cyflogwr.

Adnoddau

Gall y dysgwyr gael mynediad i ddeunyddiau dysgu a deunyddiau llyfrgell o adnoddau presennol eu cyflogwr neu fel y disgrifiwyd yn y Llawlyfr Rhaglen, o'r Brifysgol. Mae'r cyflogwr yn deall bod y Dystysgrif Raddedig i'w chwblhau gan Weithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso yn ystod eu cyfnod cofrestredig cyntaf a bydd yn cefnogi'r amserlen yma. Mae disgwyliad hefyd, gan mai rhaglen datblygiad proffesiynol yw hon, y bydd y dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain gan hefyd ddefnyddio eu hamser eu hunain ar gyfer astudio personol a pharatoi portffolio.

Mae adran hyfforddi'r cyflogwr yn cytuno i:

- gasglu, prosesu, storio, dadansoddi neu ddatgelu data personol yn unol â'i rwymedigaethau dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018.
- trefnu fod staff cymwys yn ymuno â'r rhaglen;
- talu ffioedd y cwrs yn uniongyrchol i'r Brifysgol;
- talu ffioedd partneriaeth Porth Agored ar gyfer pob dysgwr;
- darparu arweiniad a chefnogaeth ychwanegol drwy:
 - a) hwyluso mynediad i ddeunyddiau dysgu presennol neu adnoddau llyfrgell;
 - b) darparu cyfleoedd hyfforddi priodol o raglenni hyfforddiant mewnol presennol fel y cytunwyd gyda'r dysgwr a'r mentor;
 - c) darparu rhaglen gynefino a Gweithdai Cadarnhau;
 - d) darparu arweiniad a chymorth i ddysgwyr am ofynion y rhaglen a chwblhau'r portffolio;
 - e) helpu i ddatrys unrhyw anawsterau yn ymwneud â'r rhaglen y mae'r dysgwr, y mentor neu reolwyr gwasanaeth yn dod ar eu traws.

Mae'r dysgwr yn cytuno i:

- weithio'n ddiwyd i gwblhau'r cymhwyster o fewn yr amserlen a gytunwyd, sef 12 mis o'r dyddiad cofrestru ar y rhaglen;
- nodi hyfforddiant mewnol priodol gyda'r rheolwr/mentor a threfnu i fynychu'r cyrsiau hyn;
- ceisio cymorth gan Wasanaethau Myfyrwyr PCYDDS pan fo'n briodol mewn cysylltiad â materion cymorth dysgu.
- mynychu rhaglen gynefino a phedwar Gweithdy Cadarnhau. Mae'r rhain yn elfennau gorfodol o'r rhaglen;
- cynhyrchu gwaith a thystiolaeth sy'n briodol i'r portffolio a'r canlyniadau dysgu o fewn amserlenni a gytunwyd;
- gwneud a chadw at apwyntiadau a gytunwyd gyda'r mentor/rheolwr llinell;
- sicrhau ei fod wedi paratoi'n ddigonol a chael unrhyw gydsyniad sy'n angenrheidiol i arsylwi ymarfer;
- hysbysu'r mentor/rheolwr llinell a'r adran hyfforddi ar unwaith os oes unrhyw broblemau neu newidiadau mewn amgylchiadau wrth ddilyn y rhaglen, yn enwedig os gallai hyn effeithio ar gwblhau'r rhaglen erbyn y dyddiad cau a gytunwyd neu allu'r unigolyn i fynychu gweithdy gorfodol;

- cyd-gysylltu gyda'i reolwr llinell/mentor i gadarnhau diwrnodau astudio a defnyddio ei amser ei hun ar gyfer astudiaeth hunan-gyfeiriol, ymchwil a pharatoi'r portffolio;
- cymryd cyfrifoldeb personol am baratoi a chwblhau'r holl waith sy'n angenrheidiol i gyflwyno'r portffolio;
- gweithredu bob amser yn unol â'r Cod Ymarfer Proffesiynol a pholisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r cyflogwr a'r Brifysgol;
- sicrhau ei fod yn deall yr angen i gwblhau'r rhaglen yn ystod y cyfnod cofrestredig cyntaf (tair blynedd) gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. (Cymhwyso ar ôl Ebrill 2016).
- caniatáu i'w gyflogwr a Porth Agored (neu unrhyw rai o'u darparwyr a gomisiynwyd), Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Gofal Cymdeithasol Cymru (neu unrhyw rai o'u darparwyr a gomisiynwyd) rannu â'i gilydd, unrhyw wybodaeth a'r holl wybodaeth sy'n rhan o'r ffurflen gais neu unrhyw ddata eraill a ddarparwyd fel y bo'n briodol, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd ar y rhaglen, canlyniadau neu sylwadau am y portffolio, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Gall data o'r fath gael eu prosesu, storio, rhannu, dadansoddi a'u hadrodd at ddibenion gweinyddu, monitro, adolygu a sicrhau ansawdd rhaglen y Dystysgrif Raddedig neu at ddibenion cofrestru proffesiynol parhaus.

D.S. Diogelu Data: Mae angen i ni brosesu eich data personol am fod ennill y cymhwyster hwn yn rhan orfodol o gynnal eich cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae cyflogwyr wedi cysylltu hyn â'ch contract cyflogaeth. Felly mae defnyddio a rhannu eich data rhwng eich cyflogwr, Porth Agored a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r contract rhyngoch chi a'ch cyflogwr. Ni fyddwn yn datgelu eich data i unrhyw sefydliad arall ar wahân i'r rheini a nodwyd uchod heb eich caniatâd, oni bai bod rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith, neu reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddwn yn dweud wrthyh os bydd hyn yn digwydd, oni bai ein bod yn cael ein hatal yn gyfreithiol rhag gwneud hyn. Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith o gasglu, prosesu a storio data mor dryloyw â phosibl ac yn unol ag egwyddorion Diogelu Data. Rydym yn llunio Datganiad Preifatrwydd cynhwysfawr a fydd ar gael i'r holl ddysgwyr ar Moodle.

Mae'r Rheolwr Llinell/Mentor yn cytuno i wneud y canlynol:

Gall y rheolwr llinell/mentor fod yn un person neu gall dau berson ar wahân ymgymryd â'r rôl. Rhaid i'r mentor fod yn Weithiwr Cymdeithasol cofrestredig ag o leiaf 3 blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso.

- mynychu cyfarfod cynefino i ddod yn gyfarwydd â gofynion y rhaglen;
- darparu neu drefnu i ddarparu digon o gyfleoedd asesu er mwyn i'r dysgwr ddangos tystiolaeth o gymhwysedd a gwneud arsylwadau gofynnol. Os nad oes cyfleoedd ar gael ar unwaith yn y tîm, trefnu i'w darparu mewn man arall yn y Gwasanaeth;
- arwain a chefnogi'r dysgwr dros gyfnod y rhaglen;

- rhyddhau'r dysgwr ar gyfer y rhaglen gynefino a'r pedwar Gweithdy Cadarnhau ac unrhyw gysiau hyfforddi mewnol sy'n briodol i gwrdd â'r anghenion dysgu a gytunwyd;
- cytuno gyda'r dysgwr ar hyd at dri diwrnod astudio ychwanegol dros holl gyfnod y rhaglen, fel cyfraniad y cyflogwr at yr amser sydd ei angen ar gyfer astudio personol, ymchwil neu ddatblygu'r portffolio;
- sicrhau bod y rheolwr llinell yn darparu goruchwyliaeth ffurfiol reolaidd ar gyfer y dysgwr yn unol â pholisi'r sefydliad (rheolwr llinell);
- sicrhau bod sesiynau mentora'n cael ei darparu yn unol â chanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y 3 Blynedd Gyntaf o Ymarfer. Lle bo modd, dylai sesiynau mentora gael eu trefnu fel digwyddiad ar wahân i'r goruchwyllo. Rhaid cadw cofnod llawn o ddyddiadau cynnal y sesiynau mentora.

Cwblhau a chyflwyno'r portffolio

Disgwylir i'r dysgwyr gwblhau'r Dystysgrif Raddedig ac fel arfer byddant yn cyflwyno eu portffolio cyn pen 12 mis ar ôl mynychu'r rhaglen gynefino. Os bydd unrhyw ddysgwr yn rhagweld anhawster i gwrdd â'r gofyniad hwn dylai drafod y mater ar unwaith gyda'i Reolwr/Cydlunydd Hyfforddi. Cyfrifoldeb y dysgwr yw hysbysu'r brifysgol os nad yw'n mynd i allu cyflwyno gwaith erbyn y dyddiad penodedig.

Bydd proses gyflwyno'r portffolio a'r dyddiadau ar gyfer pob carfan yn cael eu cyhoeddi ar Moodle. Wedi iddynt gofrestru ar raglen **NI CHAIFF dysgwyr newid y dyddiad cyflwyno heb ddod i gytundeb gyda'r cyflogwr a'r Brifysgol.**

Nid yw pwysau gwaith yn cael ei ystyried fel rheswm dros beidio â mynychu unrhyw Weithdy Cadarnhau.

Deallaf a derbyniaf delerau ac amodau'r cytundeb dysgu hwn fel y nodwyd uchod.

Llofnod: MARGED DAPYD Enw mewn priflythrennau: MARGED DAPYD
 Dyddiad: 24.11.25
 (Dysgwr)

Llofnod: SIOVED YAPES VAUGHAN CLARK Enw mewn priflythrennau: SIOVED YAPES VAUGHAN CLARK
 Dyddiad: 24.11.25
 (Rheolwr Llinell/Mentor)

Llofnod: SARAH ANN LEWIS Enw mewn priflythrennau: SARAH ANN LEWIS
 Dyddiad: 24.11.2025
 (Mentor, os yw'n wahanol i'r uchod)

ANFONWCH GOPI WEDI'I LOFNODI O'R CYTUNDEB DYSGU HWN AT EICH CYDLINYDD HYFFORDDI O FEWN MIS I GAEL EICH CYNEFINO.